**Vaughan Gething AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/05540/19

David John Rowlands AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

6 Mawrth 2019

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Chwefror ynghylch Deiseb P-05-870, Gadewch inni sicrhau y caiff calon pob person ifanc (10-35 oed) ei sgrinio, sy'n gofyn am gyflwyno rhaglen sgrinio'r galon i bobl 10 - 35 oed yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae rhaglenni sgrinio poblogaeth yn gallu achub bywydau drwy adnabod risgiau'n gynnar, ond er hynny, gallant hefyd wneud niwed drwy dynnu sylw at ffactorau risg na fyddent yn datblygu'n gyflwr difrifol neu'n gymhlethdod iechyd. Hefyd, gall rhaglenni sgrinio roi canlyniadau negyddol ffug, ac felly nid ydynt ychwaith yn gwarantu diogelwch, ac nid yw cael canlyniad risg isel yn golygu na fydd yr unigolyn hwnnw'n datblygu'r cyflwr yn nes ymlaen. Ni ddylid cynnig rhaglenni sgrinio poblogaeth ond pan fo tystiolaeth gadarn a thrylwyr y bydd y sgrinio'n gwneud mwy o les nag o ddrwg.

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn rhoi cyngor i Weinidogion ym mhedair gwlad y DU o ran pob agwedd ar sgrinio poblogaeth. Mae'n dod â thrylwyredd ac awdurdod academaidd i faes hynod gymhleth y mae'r pwyllgor hwn yn arweinydd rhyngwladol ynddo. Mae'r pwyllgor wedi ystyried y posibilrwydd o sgrinio ar gyfer atal marwolaethau o ataliad sydyn ar y galon mewn pobl 12-39 oed, ond wedi ei ystyried nid yw wedi ei argymell.

Mae o'r farn bod y niwed a allai ddeillio o sgrinio ar gyfer risgiau o ataliad sydyn ar y galon yn fwy na'r manteision. Mae ansicrwydd ynghylch manteision cyffredinol adnabod pobl sydd â ffactorau risg, gan nad yw'r profion presennol yn ddigon dibynadwy, a byddai llawer o bobl heb gael eu hadnabod ac felly'n cael sicrwydd ffug, a byddai llawer o bobl eraill yn cael canlyniadau positif ffug. Yn ogystal â hynny nid oes cytundeb ar unrhyw driniaeth y gellid ei chynnig i rywun sydd wedi ei adnabod fel rhywun sy'n byw gyda'r risg hwn. Os bydd rhywun yn cael ei adnabod yn gywir fel unigolyn sy'n byw gyda risg, mae'n bosibl y byddai'n dechrau pryderu bob tro y byddai'n gwneud gweithgarwch corfforol, gan roi'r gorau i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Gallai hynny gael effaith negyddol ar ei iechyd yn gyffredinol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r dystiolaeth wedi cael ei hadolygu'n fanwl, ac isod mae dolen at adolygiad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a'r argymhelliad:
https://www.gov.uk/government/news/screening-for-risk-of-sudden-cardiac-death-not-recommended

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn adolygu ei holl safbwyntiau polisi yn rheolaidd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r datblygiadau yn y maes iechyd cyhoeddus hwn. Os daw tystiolaeth bellach i law sy'n awgrymu bod sgrinio'n fanteisiol, bydd honno'n destun yr ystyriaeth briodol.

Rwy'n cefnogi'n llawn yr angen i roi sylw i'r ffactorau sy'n achosi marwolaeth o ataliad sydyn ar y galon, y gellid eu hosgoi; fodd bynnag, fan hyn unwaith yn rhagor y mae angen sicrhau cydbwysedd o ran darparu gwybodaeth iechyd mewn modd cymesur sy'n darparu gwybodaeth am fynediad yn ein negeseuon i'r cyhoedd, heb greu pryder diangen. Ar lefel y boblogaeth, mae'n bwysig peidio â chreu pryder i bobl ifanc i'r graddau lle maent yn ymatal rhag gwneud yr ymarfer corff a all gryfhau eu hiechyd cardiofasgwlaidd – sef ymarfer sy'n fantais werthfawr yn nhyb pawb ohonom.

Er nad yw'n fanteisiol sgrinio poblogaeth gyfan, dylid cynnig asesiadau clinigol unigol i deuluoedd unigolion sydd wedi marw o ataliad sydyn ar y galon, er mwyn asesu eu risg. Mae hynny'n canfod achosion drwy raeadru asesiadau mewn poblogaeth lle y cydnabyddir bod y risg yn uchel, yn hytrach na sgrinio poblogaeth gyfan nad oes ganddi symptomau. Yn ogystal â hynny, dylai pobl ifanc sydd â symptomau neu bryderon, yn enwedig os ydynt yn weithgar iawn yn gorfforol, siarad â'u meddyg teulu a fydd yn gallu rhoi'r cyngor priodol iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth o raglenni sgrinio cenedlaethol sy'n cael eu rhedeg gan y GIG ledled Cymru. Mae'r GIG yn cynnig gwasanaeth cyflawn o dan y rhaglenni hyn, yn hytrach na dim ond prawf. Er enghraifft, mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn deall pam mae sgrinio wedi ei gynnig iddynt, a beth allai'r canlyniadau fod, gan egluro unrhyw agweddau negyddol ar y broses a beth fydd yr opsiynau ar gyfer pob canlyniad. Y peth pwysicaf yw ein bod yn sicrhau bod unrhyw ofal neu driniaeth y gallai fod eu hangen ar bobl ar gael iddynt.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services